Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	14 Mehefin 2023
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis / Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr adroddiad	Bob Chowdhury, Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Adroddiad Archwilio Mewnol 2022-23

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23 i'r Pwyllgor, sy'n darparu barn gyffredinol y Prif Archwilydd Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif weithredwr archwilio' ddarparu barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu blynyddol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn golygu fod angen iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

2.2. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod adolygiad o drefniadau llywodraethu yn cael eu hadrodd o fewn yr awdurdod, yn achos y Cyngor, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, ac yn allanol gyda chyfrifon a gyhoeddir gan yr awdurdod. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adolygiad blynyddol o systemau rheolaeth fewnol ac yn casglu sicrwydd o amryw o ffynonellau i'w gefnogi. Mae Archwilydd Mewnol yn gyfrannwr allweddol, a dylai'r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r rhai â chyfrifoldeb dros lywodraethu i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ynglŷn ag adroddiad blynyddol a 'barn' gyffredinol y Prif Archwilydd Mewnol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gymeradwyo ar 14 Mehefin 2023. Mae Atodiad 1 yn manylu ar sefyllfa'r archwiliadau yn Strategaeth Archwilio 2023/24 a'r rheiny sydd wedi'u dwyn ymlaen o 2022/23. Mae gan Archwilio Mewnol gynllun hyblyg er mwyn adolygu'r meysydd sy'n peri'r risgiau mwyaf yn gyntaf. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am unrhyw newid yn ystod y flwyddyn fel rhan o Adroddiad Diweddaru'r Adain Archwilio Mewnol.

4.2. Eleni mae'n rhaid i'r farn flynyddol ystyried nifer o ffactorau allweddol: Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae dau Archwilydd Mewnol (40% o'r tîm) wedi llwyddo i gael swyddi newydd mewn gwahanol sefydliadau. Mae'r Prif Archwilydd Mewnol wedi ail-werthuso pa fylchau sydd wedi'u creu o ran sgiliau a sut y gellid eu llenwi. Mae hyn wedi cymryd amser ac wedi amharu ar ddarparu'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23, ac o ganlyniad mae'r cynllun wedi ail-ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth mwyaf y cyngor y gellid eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

4.3. Wedi i awdurdodau lleol leihau maint eu timau Covid 19 ar ddiwedd mis Mehefin 2022, dychwelodd y Prif Archwilydd Mewnol i'w swydd lawn amser. Ffocws y tîm am y naw mis a oedd yn weddill oedd canolbwyntio ar gynllun 2022-23, ond yn anffodus mae'r tîm wedi gorfod canolbwyntio ar dri ymchwiliad yn y flwyddyn ariannol o ganlyniad i ddwy gŵyn rhannu pryderon ac un anghysondeb. Mae'r tri ymchwiliad wedi bod yn rhai llafurus ac wedi golygu bod angen tynnu staff oddi ar brosiectau yng nghynllun 2022-23.

4.4. Mae fy marn yn bennaf yn seiliedig ar gwblhau'r cynllun mewnol sy'n seiliedig ar risg, gwelwch Atodiad 1 ar gyfer rhestr o ganlyniadau archwilio a diffiniadau o'r sgôr sicrwydd. Ni chafodd unrhyw archwiliad yn ystod y flwyddyn sgôr sicrwydd 'Isel', gyda'r lleill yn derbyn sgôr sicrwydd 'Uchel' neu 'Canolig'. Pan nodir materion arwyddocaol, ar y cyfan mae'r rhain wedi derbyn sylw priodol, sy'n cadarnhau bod rheolwyr yn ymateb i'n gwaith.

4.5. Mae Archwilio Mewnol wedi cwblhau tri darn o waith cynghori yn ystod y flwyddyn sy'n dangos bod rheolwyr yn fodlon ymgysylltu ag Archwilio Mewnol i greu amgylchedd risg a rheoli da.

4.6. Mae ein gwaith wedi amlygu rhai gwendidau wrth reoli risg a/neu reolaethau a all olygu ein bod ni'n methu â chyflawni amcanion. Mae angen gwelliannau i fynd i'r afael â meysydd o'r fath er mwyn i'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fod yn ddigonol.

4.7. Mae barn Archwilio Mewnol ynghlwm yn Atodiad 1 ac yn dod i'r casgliad y gellir rhoi sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Rôl Archwilio Mewnol yw darparu sicrwydd o ran digonolrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae pob un o'r meysydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cyngor yn gallu darparu ei holl flaenoriaethau corfforaethol fel y nodwyd yn ei gynllun corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'r gweithredoedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaethau perthnasol a pholisïau'r Cyngor yn cael eu gwneud o fewn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda swyddogion a Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddrafftio'r Strategaeth Archwilio Mewnol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gall system rheolaeth fewnol annigonol ac aneffeithlon gael effaith andwyol ar brosesau rheoli risg y Cyngor a llywodraethu corfforaethol ehangach, ac felly, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

10.2. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Mewnol werthuso effeithiolrwydd rheoli risg a chyfrannu tuag at wella prosesau rheoli risg. Lle mae risgiau'n cael eu nodi fel rhan o'r broses Archwilio Mewnol, cytunir ar gynlluniau gweithredu a chaiff y rhain eu monitro er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.